

Ceidwad y goleudy

(dewrder / penderfyniad)

ETHEL LANGTON

Ceidwaid y goleudy, ar gyrrion Ynys Wyth, oedd rhieni Ethel. A hithau'n ferch ifanc, pymtheg oed, byddai wrth ei bodd yn helpu ei thad i drin y lampau yn y goleudy. Un diwrnod, ym Mawrth 1926, cododd storm enbyd. Roedd ei rhieni wedi mynd i'r tir mawr i chwilio am fwyd ac wedi gadael Ethel a Badge y ci yn y goleudy. Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen cododd y gwynt a chwipiodd y tonnau. Gwyddai Ethel bryd hynny na fyddai ei rhieni'n gallu hwylio'n ôl y diwrnod hwnnw. Hi felly oedd yn gyfrifol am oleuo lamp y goleudy.

“Mae'n well i ni geisio dringo'r grisiau i oleuo'r lamp,” meddai wrth Badge y ci. “Ond mi gymera i rywbeth i'w fwyta gyntaf er mwyn i mi gael dipyn o nerth.” Pan aeth i'r pantri i chwilio am fwyd dim ond darn o dorth ac ychydig o siwgr oedd yno. Torrodd frechdan iddi ei hun a gwneud cwpanaid o de. Sylweddolodd fod y storm yn gwaethygu. Roedd yn rhaid mynd allan y munud hwnnw. Agorodd y drws.

Rhuthrodd y tonnau i mewn yn gynddeiriog. Ond roedd rhaid mynd allan er mwyn dringo'r grisiau y tu allan i gyrraedd y lamp er mwyn ei goleuo. Dringodd yn araf, ris wrth ris, gan afael yn dynn yn y grisiau haearn. Llwyddodd rhywsut i oleuo'r lamp. Daeth i lawr yn araf, araf. Roedd y tonnau'n chwyrlïo o'i chwmpas. Cafodd groeso mawr gan Badge pan gyrhaeddodd yn ôl. Erbyn hyn, roedd hi'n dechrau tywyllu a gwyddai na fyddai ei rhieni'n dychwelyd y noson honno. Doedd dim amdani ond ceisio aros yn effro drwy'r nos rhag ofn y byddai goleuni'r lamp yn diffodd. Eisteddodd yng nghadair freichiau ei thad. Syrthiodd i gysgu, ond yn sydyn fe ddeffrodd. Roedd y tonnau'n lluchio ar ochr y goleudy a'r gwynt wedi codi'n enbyd erbyn hyn. “Gobeithio,” meddai, “nad oes yna'r un llong ar y môr yna heno.”

Syrthiodd i gysgu unwaith eto. Deffrodd yn sydyn. Am faint oedd hi wedi bod yn cysgu tybed? Awr, dwy, tair awr. Na, dim ond ugain munud. Roedd y gwynt yn dal i chwyrrnu. Erbyn hyn roedd hi eisiau bwyd, ond doedd dim yn y pantri. Dim byd.

“Mi fydd y storm yma drosodd reit fuan,” meddai wrth Badge, “ac mi ddaw Dad a Mam yn ôl efo digon o fwyd i ni.” Arhosodd yn effro am oriau yn gwrando ar sŵn y gwynt gan gadw llygad ar y lamp rhag ofn iddi ddiffodd.

Gwawriodd y bore canlynol. Roedd y storm yn dal yn ei hanterth. Byddai'n rhaid iddi fynd allan i ddringo'r grisiau i drin y lamp. Arhosodd tan un ar ddeg yn y bore. Roedd y storm wedi gwaethygu erbyn hyn. Ond roedd yn rhaid mynd. Unwaith eto aeth yn araf a phwylllog at waelod y grisiau a chymerodd gam wrth gam yn ofalus. Un cam gwag a dyna hi!

Cyrhaeddodd y lamp, rhoddodd fwy o olew ynddi a thrin y wic. Daeth i lawr yn ofalus. Roedd ewyn gwyn y tonnau yn taflu o'i chwmpas. Pan ddaeth i lawr a mynd i mewn drwy'r drws cafodd groeso mawr gan Badge. Roedd o fel petai'n gwybod fod Ethel yn ofnus a cheisiai ei chysuro ymhob ffordd. Erbyn hyn roedd hi a Badge bron â llwgu.

"Am faint mae'r storm yma'n mynd i barhau, Badge?" gofynnodd Ethel iddo. Gorweddodd ef yn dawel wrth ei thraed. Chwyrliodd y storm drwy'r dydd a thrwy'r nos. Erbyn yr ail fore roedd y gwynt wedi gostegu a'r glaw wedi cilio. Pan edrychodd Ethel allan trwy ffenestr y goleudy gwelai'r bad achub yn nesáu. Roedd ei rhieni ar ei bwrdd. Hwrê! Hwrê!

Derbyniodd Ethel fedal Lloyd am ei gwrhydri. Dim ond 15 oed oedd hi.



Adnod: "Abba! Dad!" meddai, "...cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Eithr nid yr hyn a fynnaf fi, ond yr hyn a fynni di." Marc 14:36



Gwenni: Plygwn ger dy fron, O Arglwydd, i roi diolch i ti am bobl drwy'r byd i gyd sy'n dangos dewrder mawr. Amen.



Trafod:

- Beth fydddech chi wedi ei wneud petaech yn byw yn y goleudy y diwrnod hwnnw?
- Pa fath o ddewrder oedd ei dewrder hi?